

B



**Barddas Bach y 'Dolig
2023**

GARETH VS DRAGONEN £6.99
Y LLYFR

BETHAN GWANAS £9.99
GLADIATRIX

Iwan Rhys £8.99
TROTHWY

Luned Aaron £8.99
PORTH

PRYFED UNDYDD £9.99
Andrew Teilo

DAL ARNI £9.99
IWCS

CYMRU GUDD £14.99
STIAN ARNOLD

am restr gyflawn o lyfrau, ewch i

[y lolfa.com](http://www.ylolfa.com)

Llyfrau dros Gymru

b Llyfrau Newydd Cyhoeddiadau Barddas!

AR GAEL NAWR:

CURIADAU £12.95
 Rhys Dafis

Gweld Llun o Glywed Llinell £8.95
 Rhys Dafis

Mymryn Rhyddid £8.95
 Gruffudd Owen

Pigion y Talwrn £9.95
 Gaeol Wyn Jones

Cyhoeddiadau **Barddas** www.barddas.cymru CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL OF WALES

Golygyddol

Tri Gŵr Doeth

Drwy'r wlad honno draw, mae cysgod Brenin Braw, ac mae cleddyf gan Mihangel yr Archangel yn ei law.

'Awn ninnau i gyd i'w Wyl O, â'r delyn yn ein dwylo,' meddai'r Lliaws o Lu Nefol. 'Annioddefol ydi'r wylo.'

Ac meddai'r bugail heno: 'siŵr iawn yr awn ni yno! Mae'r lle ar ochor y West Bank, ond does dim tanciau eto...'

'Nid doeth yw mynd eleni,' meddai Melchior am y Geni. 'Pob lwc,' meddai Baltasar a Caspar, 'i'w rieni...'

NADOLIG LLAWEN!

TM, Trefan, Ddydd Gŵyl Fflewin, 2023



Heledd Melangell



Aled Evans



Bethany Celyn



Gwenallt Llwyd Ifan

GAIR O'R IS-GADAIR

ANEIRIN KARADOG

Mae chwe mlynedd bellach wedi treiglo ers i mi gael fy nghyfeithol i fod yn Gadeirydd y Gymdeithas Gerdd Dafod gan bwyllgor gwaith Barddas. Nid yw pwyllgora at ddant pawb! Na chwaith drefniadaeth cymdeithasau elusenol *niche* fel Barddas. Ond pan fydd rhywun yn gofyn beth sy'n digwydd tu ôl i'r llen yn Barddas, fel y gwnaeth y bardd Jo Heyde yn steddod Genedlaethol Tregaron, yna gocheled: y tebygrwydd yw y byddwch yn dod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith! Yn wir, os ydych chi'n aelod o'r Gymdeithas Gerdd Dafod ac awydd cyfrannu at weithgarwch y gymdeithas, mae modd ichi gael eich cyfeithol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae adnewyddu yn rhan hanfodol o'n traddodiad barddol, ac mae'r un yn wir am Barddas. Cysylltwch â'n swyddogion i holi.

Bu gweision ffyddlon yn cynnal a chadw'r gymdeithas am ddegawdau a mawr yw'r

diolch am y gwasanaeth amhrisiadwy a roddwyd ganddynt, ond nid yw'r byd yn sefyll yn stond ac felly bu angen i Barddas gamu mewn i'r byd digidol yn hyderus. Cofiw'n naw nod y Gymdeithas Gerdd Dafod yw hybu a hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r gynghanedd a barddoniaeth yn gyffredinol ymysg pobl Cymru a thu hwnt. Un ffordd o agosáu at gyrraedd y nod yw gosod stondin sydd mor groesawgar ac agored a phosib. Bu'r ysbryd hwnnw yn rhan o sefydlu Barddas yn ôl ym 1976 ac mae parhau â'r ysbryd hwnnw yn hanfodol i'n parhad ninnau.

Braint fu croesawu aelodau newydd i deulu Barddas eleni. Ar ddechrau'r flwyddyn fe benodwyd y bardd, y gantores, a nawr y Golygydd, Bethany Celyn i swydd Golygydd Creadigol Cyhoeddiadau Barddas. Mae Bethany yn olynu Alaw Mai Edwards a wnaeth gyfraniad mawr dros bron i bum mlynedd o gyhoeddi

llyfrau graenus a chofiadwy ar ran Barddas. Mae Bethany Celyn eisoes wedi creu argraff wrth fwrw ati gyda'r swydd a mawr yw ein ffydd ynddi.

Yn ogystal â ffarwelio ag un Alaw y llynedd, bu'n rhaid i ni ffarwelio ag Alaw arall a wnaeth gyfraniad gwych i weithgarwch Y Gymdeithas Gerdd Dafod ers y cyfnod clo pan gafodd ei phenodi, sef Alaw Griffiths, cyn-gydllynydd Barddas. Rhan o'r adfywio parhaus sy'n anochel yw croesawu Heledd Melangell Williams atom fel Cydllynydd newydd ein hawen. Mae Heledd hefyd wedi bwrw ati gyda chrebwyll ac egni i ymgymryd â'r dyletswyddau sydd ynghlwm wrth brysurdeb cadw trefn ar feirdd a threfnu stôr o weithgareddau, yn ogystal â'r gwaith hyrwyddo cyson sy'n rhan annatod o'r swydd.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Prifardd Llion Jones a fu'n Is-gadeirydd am 11 mlynedd! Mawr yw ein dyled iddo am ei gyfraniad a'i ddoethineb. Diolchwn hefyd i Llŷr James a wnaeth dwrn arbennig o waith fel trysorydd gan ddiweddarau a llyfnhau ein ffydd o weithio. A hoffwn ddiolch yn bersonol i Rhys Dafis, nid yn unig am iddo fy nysgu i gynganeddu dros ddau ddegawd yn ôl yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, ond

am iddo yntau hefyd wneud twrn mawr o waith fel ysgrifennydd Barddas. Mi fydd yn trosglwyddo'r awenau i Aled Evans o Ysgol Farddol Caerfyrddin yn y gwanwyn ac mae Meirion Jones, hefyd o Ysgol Farddol Caerfyrddin, bellach yn swydd y trysorydd. Croeso mawr iddyn nhw. Yn wir, gyda Mererid Hopwood nawr yn Archdderwydd, mae peryg bod Ysgol Farddol Caerfyrddin yn hawlio'r grym i gyd!!

Fy mraint yw cyhoeddi mai'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan sy'n fy olynu fel Cadeirydd Barddas ac rwy'n hapus iawn i gamu i rôl yr Is-Gadeirydd er mwyn trosglwyddo a bod o gymorth pan fo angen. Diolch hefyd i holl aelodau pwyllgor gwaith Barddas, sy'n gwneud gwaith di-flino yn y cefndir. Dyma eu henwi gyda gong o ddiolch iddynt: Mererid Hopwood, Dafydd John Pritchard, Mari George, Osian Rhys Jones, Elinor Wyn Reynolds, Tudur Dylan Jones, Jo Heyde a Gruffudd Antur.

Y digwyddiad mawr o bwys a gynhaliwyd gan Barddas yn ddiweddar oedd Gŵyl Gerallt yng Nghaerwys, lle buom yn dathlu 500 mlynedd ers Eisteddfod arwyddocaol Caerwys. Ond caiff fy olynydd teilwng, Gwenallt, sôn mwy am hynny...

GAIR O'R GADAIR

GWENALLT LLWYD IFAN

Anrhydedd a phleser oedd cael fy ethol yn Gadeirydd newydd Barddas. Diolch i'r Pwyllgor Gwaith am eu hymddiriedaeth. Wrth ymgymryd â'r swydd rwy'n teimlo baich hanes ar fy ysgwyddau wrth olynu rhai llawer mwy teilwng na fi yn y swydd. Rwy'n cofio'n dda anfon fy ngherdd gyntaf at Alan Llwyd, golygydd y cylchgrawn ar y pryd, ac yntau'n garedig iawn ei sylwebaeth ac yn ei chynnwys yn y rhifyn nesaf o'r cylchgrawn. Dyna oedd gwefr arbennig i fardd ifanc, a sbardun i barhau i ddysgu a datblygu fel bardd. Penllanw hyn i mi oedd cael gwahoddiad gan Barddas i gyhoeddi cyfrol, sef *DNA*. Rhywbeth y byddaf yn fythol ddiolchgar amdano.

Rwy'n awyddus i weld Barddas yn parhau i roi yr un llwyfan i feirdd ifanc newydd a hybu gwerthfawrogiad o farddoniaeth Gymraeg yn eang. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r swyddogion, ac yn arbennig i Aneurin Karadog, am eu hamynedd wrth i fi ofyn cwestiynau a dod i ddeall cwmpas y swydd. Bydd Nei yn sicr yn gefn i fi wrth iddo gamu i rôl yr is-gadeirydd Ac wrth ystyried y tair blynedd o fy mlaen i, rwy'n edrych ymlaen i weithio gyda Heledd Melangell, Trefnydd Barddas, a Bethany Celyn, Golygydd Creadigol, a Twm Morys, Golygydd ein cylchgrawn, gan wybod bod gennym bobl gwbl arbennig yn gefn i'r Gymdeithas.

Hyderaf nad cadeirydd – a ry raen
ar greu, ond y trefnydd
eger, a dau olygydd
hynod cerdd dafod ein dydd.

Yng ngeiriau fy arwr, athro barddol a chyn-
drydorydd Barddas, John Glyn Jones, a fyddai'n



beirniadu llinellau pob prentis yn ei ffordd fach gynnill â sigarét yng nghornel ei geg, 'la, go dda, rwan!'

Mae hynny'n fy arwain i at ddigwyddiad mawr Barddas, sef Gŵyl Gerallt 2023, a oedd yn cael ei chynnal eleni ym mro John Glyn. Rwy'n siŵr petai ef yn dal gyda ni, y byddai wedi mwynhau yn fawr. Roedd eleni yn fwy arbennig byth gan ei bod yn bum can mlynedd er eisteddfod Caerwys 1523. Felly, roedd holl bwysau hanes hanner mileniwm yn drwm ar ysgwyddau'r gymdeithas. Trefnwyd ac fe gafwyd gŵyl! Diolch i'r trefnwyr (Rhys Dafis a'i bwyllgor lleol ymroddedig) am ddigwyddiadau a threfniadau cwbl arbennig a manwl.

Drannoeth i'r digwyddiad agoriadol hyfryd ar y nos Wener (Twm Morys, Gwyneth Glyn a Siân James), aeth y confoi i Blas Mostyn (ar hewlydd Tudur Aled) i glywed Darlith Goffa Gerallt (Peredur Lynch a Gruffydd Antur), darlith Goronwy Wynne, datganiadau'r delynores Sioned Williams a'r cantor leuan ap Siôn. Am leoliad trwm o hanes a chreiriau!

Yn Neuadd Caerwys roedd timau talwrn ysgolion Glan Clwyd a Maes Garmon o dan ofal Rhys Iorwerth ac Arwel Emlyn Jones yn cynnal gornest. Rhaid i chi aros i glywed yr ornest wych honno gyda'r meurn Ceri Wyn Jones ar Radio Cymru yn y flwyddyn newydd. Diolch hefyd i Nia Morais, Bardd Plant Cymru, am ei gwaith

gyda disgyblion ysgolion cynradd Gwenffrwd, Mornant a Thremeirchion. Hwyl oedd clywed y barnwr Emyr Lewis yn gwranddo ar dystiolaeth Nia Powell, Peredur Lynch a Dafydd John Pritchard dros eu hachos am gerdd gaeth fwyaf y Gymraeg! Ni chafwyd mwyfarif gan y rheithgor!

Os oedd angen codi i uchafbwynt uwch eto brynawn Sadwrn, cafwyd un teilwng dros ben pan gododd neb llai nag Alan Llwyd i dderbyn y wobr o gadair arian am ei awdl 'Etifeddiaeth'. Beth allai fod yn fwy addas na chadair arian yng Nghaerwys bum can mlynedd ar ôl i Dudur Aled gyflawni ei gamp ef? Diolch i'r ddau feirniad, Myrddin ap Dafydd a Mererid Hopwood, am eu gwaith. Rwy'n siŵr nad oedd dau Archdderwydd yn bresennol yn 1523. Llongyfarchiadau gwresog iawn i Alan Llwyd – Pencerdd Caerwys 2023.

I gloi'r dydd Sadwrn roedd rhaid cael ymryson. Y Meurn a'r Islwyn yn mentro gyda thasgau gwahanol a heb eu siomi gan ymdrechion y timau. Efallai bod amrywiaeth mesurau a thasgau datgan yn arwydd o bethau i ddod? Beth am weithdy datgeiniad yn ystod y flwyddyn, Mistar Meurn? Diolch i dimau Aberffraw (capten: Myrddin ap Dafydd), Mathrafal (capten: Mererid Hopwood) a Dinefwr (capten: Tudur Dylan). Nodon wych.

Gwawriodd dydd Sul yn sych – er mawr ryddhad i'r Cadeirydd – a chafwyd taith gerdded yng nghwmni'r cywyddwyr o Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon i Abaty Dinas

Basing. Diolch i Aneurin Owen am daith hynod ac i Norman Closs am ei gyfraniad yntau.

Diolch i'r noddwyr; Llenyddiaeth Cymru (digwyddiadau Bardd Plant Cymru) ac Adran Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru dan ysgogiad Elin Haf Gruffydd Jones. Diolch i Ferched y Wawr Llanellwy, Ysgol Glan Clwyd, Arglwydd Mostyn a'i staff, Ceri Wyn Jones a BBC Radio Cymru, Caffi The Square Caerwys, Neuadd Caerwys, Capel Bethel Caerwys, Menter Iaith Sir y Fflint, Capel Penbryn Treffynnon, a gwesty'r Oriol yn Llanellwy. Diolch hefyd i Heledd Melangell am ddod â'r stondin llyfrau a chyhoeddiadau Barddas i'r ŵyl. Os ydw i wedi anghofio unrhyw un, maddeuwch i fi!

A dyna ni, aelodau annwyl. Gŵyl Gerallt lwyddiannus dros ben. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i'r rheiny a fynychodd. Gobeithio i chi fwynhau. Ble fydd yr un nesaf? Cawn weld.

Cyn hynny, croesawn ŵyl arall — Gŵyl y Golau. Nadolig Llawen a dedwydd i chi a'ch teuluoedd i gyd a Blwyddyn Newydd Dda llawn gobaiht am fyd heddychlon i bawb.

Ni welwn ôl y golau – ar y llain,
oer a llwm ŷm ninnau,
oni ddaw ryw un neu ddau
â heddwch yn lle'r beddau!

'la, go dda, rwan!'

Y Gadair Fechan (?)

3

Am hyn, nid cadair mohoni, nid gwobr
ond gwrth ein bodoli;
hanfod Cerdd Dafod yw hi
a thlws ein bythol oesi.

1

Yn llai na chadair Pen Llŷn, iddi hi,
trwy'r hen ddysg ddiderfyn,
mae ystyr: cadair Mostyn
yw'r lleiaf a'r fwyaf un.

2

Hen awen sy'n cyniwair drwyddi o hyd,
hen draddodiad disglair:
parhad ein crefft yw'r gadair,
ein crefft oesoel, nid crair.

ALAN LLWYD

Nadolig i bawb yn ôl eu dymuniad

O ben pella'r cae
yn nhywyllwch y nos yn edrych yn ôl
ar y tŷ â'r ffenestri'n olau,
a'r golau'n chwarae yng nghoflaid y canghennau
wrth i'r gwynt godi, arwrol yw'r hen aelwyd,
dan bigiadau cynta'r glaw,
fel cytser ystyrion yn y gwagle maith,
yn ein denu fel ateb i ddirgelwch.

O wthio drwy'r drws
mae'n fedlam, fel agor y ffwrn
ar chwa dwym arogleuon bwyd
– a gwynt teulu cyffredin
– llestri'n clatsio bwrdd y gegin, teledu'n boncysr,
dw-dw-dwm-dwm-dwm bas uwch ein pennau,
y cartre'n ddieithrwch o drimins a goleuadau,
cyfarth Lola'n gyffro ac ewinedd
yn sgrialu'n nes o amgylch y gornel
a gwn yn nyfnder fy nghalon
y bydd cyrn coch Rwdolff yn fflapio ar ei phen.

ROBERT LACEY



Y CÔR

Gan mai ar lannau Ruhr y'm magwyd,
iaith estron fu'r Gymraeg i mi,
a chofiaf gael fy nrysu'n ddirfawr
gan un o'i geiriau prydferth hi.

Yn ôl 'Ar Gyfer Heddiw'r Bore'
mewn *côr* ym Methlem roedd Mab Duw.
'Mewn *côr*? Pa gôr sy'n derbyn baban?
Côr Meibion Bethlem? Rhyfedd yw!

Ond erbyn hyn mi gefais wybod
mai pedair ystyr sydd i'r gair,
sef 'mainc' a 'changell' a 'chantorion'...
ac yna'r 'preseb' llawn o wair.

Pob *côr* a *chôr* – pob mainc a changell –
rhoed fawl Nadolig nawr i'r Iôr,
fel gynt pan roddodd *côr* yr engyl
fawrhâd i'r baban yn y *côr*.

CHRISTINE TODSEN

Nadolig 2023

Anodd i ni eleni,
â gwaed yn lliwio'r gwynt,
fydd dathlu dydd y geni
gwryfol, gwyrthiol gynt:
dydd heb lawenydd sydd o'n blaen
â Phalesteina yn un staen.

A thlodaidd fydd dathliadau
yr wyl â'r gynnau'n groch,
a'r byd i gyd yn gadau,
a'r byd i gyd yn goch,
a'r gynnau croch, er geni Crist,
yn creu Nadolig trasig, trist.

Anodd i ni eleni
gonsurio eto'r hud
a llawer o rieni
Wcráin uwch gwacter crud,
ac eco'r wylo o Wcráin
yn cylchu'r byd, fel ubain main.

Ond heb yr addurniadau,
heb oleuadau lu,
a choeden a fflachiadau
tinsel yn llenwi'r tŷ,
tywyllach ac enbytach byd
a fyddai hwn, heb feddu hud.

ALAN LLWYD

Ar Noswyl Nadolig

Clywais sawl llais yn ddweud llon, ac â'r Wyl
yn grud o obeithion
yma'n glòs, rhy'r hwyrnos hon gofleidiad
fel yng ngalwad dros fil o angylion,

a gwelais fwy nag wylo'n y grenâd
ar sgrîn hwyr sy'n ffrwydro'n
rhy barhaus, ac erwau bro dan rwbel
o boeri rhyfel, a'r darnau'n brifo,

ond teimlais, hwnt i'r cleisiau (er yn wir,
yn naïf, rwy'n amau)
un nos o hedd yn nesáu, a'r holl fyd
yn gri ddiwyd a gwâr ei weddïau.

ARON PRITCHARD

Nadolig 2023

Ar ei hyd y stryd yn strach: yr hwpo,
yr heip oll yn afiach.
Seithug yw Gŵyl y Sothach.

MARTIN HUWS

Yn lle Nadolig Llawen a'i heddwch
yn noddiant y seren,
parhau wna'r bomiau uwchben
i gynnau yr hen gynnenn.

Wele wlad adfeiliedig yn wylo,
a'i theulu'n rhanedig,
a thra dial a dal dig,
di-olau fydd Nadolig.

Yng ngwlad Crist mae 'na dristwch na welir
y golau at heddwch,
parhau mae'r lleisiau o'r llwch
i ddial yn ei ddüwch.

MEIRION JONES

Yn un llais, daw pawb yn llu
i ganu yn blygeiniol,
a gwau geiriau mor gywrain
ar adain tön ysbrydol.

O stabal yr anialdir,
daeth gwir oes hir un seren
a rydd ei lleufer heddiw,
a'i lliw, i'n 'Dolig Llawen.

JO HEYDE



Dadorchuddio Cofeb Hedd Wyn, gan mlynedd i eleni...

Carol Nadolig 1916

*Dyma'r dydd y gwelwyd Iesu
Yn y preseb gwael ei drem,
Ac angylion Duw yn canu
Uwchben meysydd Bethlehem,
Canwenninnau
Gydag Engyl gwynion Duw.*

*Er mai preseb oer difoliant
Gafodd Ef yn faban gynt,
Pan yn dyfod o'r Gogoniant,
Tua'r ddaear ar ei hynt,
Holl allweddau
Tragwyddoldeb sy'n Ei law.*

*Deuwch, engyl, eto i ganu
Uwch ein hen ryfelgar fydd,
Cenwch wrtho am yr Iesu
All dawelu'r brwydrau i gyd,
Yn y moliant
Uned holl deyrnasoedd byd.*

HEDD WYN

SIMON CHANDLER

Yng ngeiriau doeth y Prifardd Alan Llwyd, 'wrth englyna, ac wrth lunio barddoniaeth gynganeddol yn gyffredinol, nid cynganeddu geiriau yw'r nod ond cynganeddu syniadau', ac un o'r pethau cyntaf a ddysgais fel egin-gynganeddwr oddi wrth fy athro cynganeddol, y Prifardd Aneurin Karadog, oedd pŵer a phwysigrwydd gwrthgyferbynnu syniadau wrth englyna.



DYWEDER CADOEDIAD

Fel bachgen ysgol yn Llundain, y beirdd cyntaf a wnaeth argraff arnaf oedd Wilfred Owen a'i gynghorwr, Siegfried Sassoon: beirdd y Rhyfel Mawr felly. O ran beirdd yn gyffredinol (ymysg pobl eraill), fawr o syndod mai'r rhai ym mhob cenhedlaeth sydd wedi gorfod profi a dwyn tystiolaeth i erchyllterau creulnaf rhyfel yw'r rhai sy'n coleddu breuddwyd heddwch tragwyddol fwyaf: heddw yn wir. Wrth gwrs, roedd Owen a Sassoon, fel Ellis Humphrey Evans, yn heddychwyr yn barod cyn iddyn nhw gael eu hanfon i gaeau lladd Ffrainc, er bod enw barddol Evans yn cyfeirio hefyd at y ffordd swynol y byddai pelydrau'r haul yn treiddio trwy darth cymoedd Meirionnydd.

Fel sawl rhiant, cefais fy ailgyflwyno i swyn y Nadolig pan oedd fy mab (sydd bellach yn

30 oed) yn blentyn bach a welai bopeth trwy darth rhyfeddod. Rhywsut, fe roddwyd i mi (ond dim ond dros dro) fenthyl yr un ddawn ag oedd gydag ef, fel pe bai'n gleren Fai'r Gaeaf, cyn i'r hen sgeptigiaeth ailgydio ynof ym mis Ionawr.

Un o'r llyfrau darluniedig rwyf yn cofio ei ddarllen yn uchel i'm mab yw *War Game* gan Michael Foreman sy'n ymwneud â stori enwog Cadoediad y Nadolig ym 1914 pan gyfarfu milwyr Prydain a'r Almaen ar dir neb rhwng y ffosydd i chwarae pêl-droed, tynnu lluniau a chyfnewid straeon ac anrhegion. Digwyddodd hynny ar ôl i'r milwyr Prydeinig glywed y rhai Almeinig yn canu carolau. Mae'n debyg iddyn nhw gael eu hatgoffa o'r ddynoliaeth oedd yn perthyn iddynt i gyd.

Gêm Ryfel

Bu cymod yr ymosodwyr, bu beirdd
ar y bêl, cymrodry
y cae, ymarfer cyhyr,
enaidd byw am gyfnod byr.

Gwaetha'r modd, fodd bynnag, nid oedd y cadfridogion ar y naill ochr na'r llall yn hapus o gwbl gyda'r syniad o ewyllys da'r tymor rhwng bodau dynol oherwydd y pryder y gallai hynny danseilio'r rhyfelgarwch oedd wedi'i raggyflyrru yn y milwyr, oedd i gyd yn fodau dynol a gafodd eu taflu yn erbyn ei gilydd a'u gorfodi i ateb y diben yn ufudd fel porthiant i'r gynnu mawr.

Gellid ystyried agwedd y cadfridogion mewn ymateb i Gadoediad y Nadolig yn blentynnaidd o ystyried i'r agwedd honno darddu o'r reddf ansoffistgedig i ddial (ac mae oedolion i fod yn fwy soffistgedig na phlant). Wedi'r cwbl, oni fyddai person soffistgedig yn troi'r foch arall? Ac eto, onid oedd yna rywbeth diniwed yn ymddygiad pob un o'r milwyr cyffredin y diwrnod hwnnw, sef Noswyl Nadolig 1914, a hwythau'n barod i fwrw'u hamheuon a'u rhagfarn heibio am sbel a chredu yng ngwyrth y Nadolig?

Dywedir y dylid cadw mewn cysylltiad â'n plentyn mewnol ni, a chyfnod y Nadolig yw'r adeg sy'n ein galluogi ni i gyflawni hynny'n fwy nag unrhyw adeg arall o'r flwyddyn, o gofio'i hen draddodiadau sy'n ein cludo ni'n ôl yn ddi-ffael i atgofion ein plentyndod, fel pe baem yn cael ein tywys ar hyd rhyw llyn bogail rhithwir, di-dor.

Y gwir yw mai dim ond i rinweddau diniwed y fersiwn blaenorol ohonom ni'n hunain y dylai fod croeso, ac ni ddylai fod unrhyw le yn y llety i'n tueddiadau plentynnaidd ni...

Swyn Noswyl Nadolig

Ar gadw ger y goeden, na rwygwyd,
anrhegion yn domen,
su'r wobr o sêr y wybren,
plantos y nos dan y nen.

Dawn y plentyn i ryfeddu at hud y Nadolig ac i gredu yn neges heddwch ac ewyllys da: dyna'r ddawn y mae'n rhaid i ni geisio'i hailddarganfod bob Nadolig. Ac, wrth gwrs, rhaid cofio hefyd nad gŵyl i blant yn unig yw'r Nadolig, ond gŵyl i bawb.

Mae gan y gynghanedde ei gwrthgyferbyniadau oherwydd ei bod hi'n adlewyrchiad o fywyd go iawn ac yn lens y gellir gweld ein byd ni trwyddi. Ni ellir meddwl am enedigaeth Iesu Grist adeg y Nadolig heb feddwl am ei groeshoelio adeg y Pasg. Yn yr un modd, ni ellir meddwl am dywyllwch y diwrnod byrraf heb feddwl hefyd am olau gogoneddus ei wrthwyneb pegynol ganol yr haf.

Felly, eleni, er gwaethaf anobaith dwfn yr holl laddfeydd sydd o'n cwmpas ni ym mhob man, dewch i ni feiddio gobeithio (fel y plant oeddem ni gynt) am gadoediad dros y byd i gyd: nid dim ond adeg y Nadolig, ond trwy gydol y flwyddyn...

Câr dy Gymydog

Y nefoedd yw'n cynefin, â nentydd
heb fynwentydd llychwin.
Cymrawd a'i ffawd dros y ffin,
pur euraidd pob pererin.

‘LLIF’ HEMACITE

Trwy y glwyd, wedi i'r gwynt a'r glaw — beidio,
Aeth Bedwyr i'r distaw
Wiglwyn, ond nid yn waglaw:
Aeth i'r drin â'i li'n ei law.

A dyna li awchlym, nid un lychlyd;
Math o ryw hudlath, nid hen beth rhydlyd
Heb awch, o olwg y byd — o dan sach
Yng nghwt bach y geriach mewn seguryd.

Hogedig o ddig ydoedd,
A dig o hogedig oedd,
Wedi ei hogi â hen
Gilwg blin o galen.
Ac â'r arf i'r wig yr aeth
Bedwyr (Ac er gwybodaeth:
Y coed hyfryd, coed tewfrig,
Nid ei wallt, ydyw 'y wig';
Y wig sy'n goedwig ydyw,
Nid y swp anffodus yw.
Mae dweud 'Y WIG' yn ddigon:
Fe glywir 'i hir yn hon.)
Ta waeth! Yn ôl at y wig
A lli'r coedwig'r lloerig...

Fe aeth crochwrndi ei li ar led,
A gwae i lawer oedd ei glywed;
Yr hen ddâr diymwared! — Tragwydd
Yw dyn a'i awydd i wneud niwed.

Y dryw balch a'r fwyalchen,
Trydar a wnant ar aden:
'Dyna'r byd i ni ar ben!'

A 'dyna'n dydd dua'n dod!'
Yw neges y sgwarnogod;
'Rhaid neidio neu beidio â bod...'

I'r wiwer iach braw a roes;
Mae honno am ei heinioes
Hefyd am gymryd y goes.

Ond y coed, yr hengoed hyn,
Rhyw deidiau heb draed ydyn'
I redeg rhag yr adyn.

Daw hwn fel Duw ei hunan
I dorri bedw arian
A chyll a ffawydd â chân.

Gyda hwn mae'r derw'n ymdaro,
A sw'n eu llefain sy'n y llifio,
Cwyn coed, oedd yma cyn co', — yn eu cur:
'Bedwyr! Bedwyr! Rhaid iti beidio!'

Ar ei ben hen gangen gas
A gwmpodd, ac o'i gwmpas,
Yn niwl du 'nghanol y dydd,
Codi wnaeth brain y coedydd.
'Myn Duw,' ebr ef, 'mae'n dywyll!
O, nid wy'n gweld yn y gwyll!'
Aderyn ddaeth â'r stori:
Trwy'i aswy law troes ei li
A naid a roes wedyn draw
I hawlio ei ddeheulaw.
Gwaed yn dew hyd ei lewys;
Yn y baw ei ddeunaw bys
A'i ddau fawd (pa ddyfodol
I'w bêl-rwyd heb law ar ôl?)
Llanast ymysg y llwyni!
Ond yno'n drwch roedd llwch lli...

Dyn blin mwyaf sydyn heb law — (na'i chwith
Na chwaith ei ddeheulaw)
Mewn llannerch drist a distaw,
A lli yn chwyrnu gerllaw.



‘Rhyw deidiau heb draed ydyn’...

BEIRNIADAETH y Prifardd Rhys Iorwerth

Mae pethau hwyr yn fy mlino. Eurig Salisbury. Bysus Arriva i Fangor. Awdlau cenedlaethol sy'n dod i law *seithmis ar ôl y dyddiad cau*. Byddai sawl beirniad cas a thwp yn dweud wrth awduron yr awdlau hynny am fynd i ganu. Ond nid cas mohonof. 'Wrth gwrs!' llefais wrth *HEMACITE* pan ofynnodd am fy marn am ei lafur. Mae hi'n dymor ewyllys da wedi'r cyfan. Ond dim ond i raddau.

Byddwch wedi darllen gwaith *HEMACITE* eisoes. Mae hi ar dudalen 20. Afraid i mi wastraffu mwy ar bapur ac adnoddau'r ddaear drwy ailadrodd yn syrffedus fyrdwn ei awdl fer. Ond gan mai dyna brif nodwedd beirniadaethau'r Genedlaethol y dyddiau hyn: mae dyn yn mynd i lifio coed gyda llif gadwyn; ar ddamwain (neu drwy ragluniaeth), mae'r cyfryw lif yn tsiopio'i ddwylo ymaith.

Dau gynnyrch amlycaf y prosesau uchod ydi llwch lli a gwaed. Ffugenw campus, *HEMACITE!* Gan mai 'Llif' oedd y testun gosodedig, cawsom ymdriniaeth hynod o destunol â'r pwnc. Ar ôl meddwl, mor destunol nes ei fod yn annhestunol. Neu'n lled annhestunol, efallai. Mae'n rhaid meddwl y tu hwnt i'r testun. Ond gan gynnwys y testun, wrth reswm pawb.

Ta waeth, beth am fy argraffiadau cyntaf? Wel, hyn. Dyma fardd sydd wedi llamu i'n plith o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwy sy'n byw yng ngwlad y tai haf heddiw a fyddai'n defnyddio ymadroddion fel 'ebr ef'? Yn llurgunio cystrawen gyda chymalau fel 'Trwy y glwyd' pan fyddai 'Trwy'r glwyd' yn osgoi'r angen dilynol i gywasgu llafariaid? Ffolais ar 'i'r distaw / Wiglwyn', ond dim ond yn y modd y byddaf yn ffoli ar sgerbydau

mamothiaid mewn amgueddfeydd. A beth gebyst ydi 'dâr'?

Mae hi'n ffaith bod awdl fuddugol Boduan eleni wedi manteisio ar grefft ailadrodd yn go helaeth. Ond cyngor i *HEMACITE*: gadewch yr ailadrodd i Alan Llwyd. Mae sŵn clasurol i gwpledi fel:

Hogedig o ddiwedd,
A dig o hogedig oedd...

Ac am eiliad fe'm hudwyd gan y cyfnwied geiriau twyllodrus. Ond ar ôl ymgynghori â thorrwr coed proffesiynol, cadarnhawyd fy amheuo. Does dim gwahaniaeth technegol o gwbl rhwng llif hogedig o ddiwedd a llif ddiwedd o hogedig. Gwastraff geiriau!

Gwendidau mwy sylfaenol wedyn: y llinell 'Gilwg blin o galen'. Mae pob cynganeddwr gwerth ei galen, sori, halen, yn cyfrif sillafau ar ei fysedd ond methwyd â gwneud hynny yn yr achos hwn. Ac ystyried tranc prif gymeriad yr awdl, caiff *HEMACITE* fymryn o faddeuant. Eto i gyd, tor-mesur yn ogystal â thor-bysedd.

Y llinell 'Ond y coed, yr hengoed hyn'. Os 'hengoed', pam yr angen hurt i ddatgelu eu bod yn 'goed' hefyd? Heb sôn am y ffaith echrydus bod hon yn gynghanedd wallus. Nid ydi 'coed' yn odli efo 'hengoed' mewn unrhyw goedwig yn y byd pan fydd y gair 'hengoed' ag 'h' yn ei ddilyn. Taranaid am hyn mewn llefydd eraill. Mae hyd yn oed fardd buddugol Boduan yn euog o fai go debyg: 'Yr ennyd-rhwng-deufyd hon'. Gall cytseiniaid fod yn 'd' a gall cytseiniaid fod yn 't', ond siawns na all cytseiniaid fod yn 'd' ac yn 't' ar yr un pryd.

Y gair 'coedydd'. A ydych wedi mynd o'ch cof, *HEMACITE*? Mae lluosogi geiriau lluosog, er yn ddoniol, braidd yn ddianghenraid yn yr oes hon tra bo gennym TikTok a Vaughan Hughes i'n difyrru.

I gloi. O ran y ffaeleddau. Mewn difrif calon, a oes ar ddarllenwyr *Barddas* angen yr esboniad semantig sy'n dadlennu ystyron 'gwig' (y peth tyfiannol, deiliog) a 'wig' (nad yw'n dyfiannol nac yn ddeiliog ond sy'n ceisio ymdebygu i'r math hwnnw o beth ar bennau pobl foel)? Nag oes, wir. Meddylied *HEMACITE* am deimladau Guto Dafydd a Dylan Iorwerth, i enwi dim ond dau.

I gloi ar ôl cloi. O ran y ffaeleddau. Byddai T.H. Parry-Williams heb ei sbectols wedi gweld yn glir mai'r gynghanedd a dim arall sydd i gyfrif am yr honiad fod Bedwyr yn foi am bêl-rwyd. Efallai fod hynny'n wir, efallai nad yw. Ond mae'n hollol amherthnasol. Beth os oedd yn un am nofio cydamserol?

Y rhagoriaethau wedyn. Haenau ystyr! Nid cerdd am wron yn colli aelodau rhan uchaf ei gorff yw hon yn y bôn (bam bam). Ystyriwch y llinellau:

...Tragywydd

Yw dyn a'i awydd i wneud niwed.

Does dim un gwaith celfyddydol yn ddilys y dyddiau yma (nac yn haeddu nawdd) heb gyfeirio at broblem fwyaf ein hoes. Na, nid Vaughan Hughes. Mae'n dda gweld bod *HEMACITE* wedi sylweddoli hyn. Nid cerdd am Bedwyr ddi-freichiau ydi hon yn ei hanfod. Awdl ydi hi am y ddaear gynhesach, ddrylliedig a ddaw.

Yr aderyn a'r wiwer a'r sgwarnog. Ni ydyn nhw, gyfeillion. Bedwyr ydi'r grym cyfalafol, llygredig sy'n ein dinistrio ni i gyd. Byddai T. Gwynn Jones a Gruffudd ab yr Ynad Coch wedi deall i'r dim. Rydan ni'n mynd i'r gwellt. Mae'r coedydd [*sic*] cadarn yn syrthio i'r tir. Ac mae *HEMACITE* wedi darlunio hynny yn waedlyd, bryfoclyd, ac efo braw. Ond yn llawer, llawer rhy hwyr.

'Mae'n hollol amherthnasol...'

Curiadau, Blodeugerdd LHDTC+

GOL. GARETH EVANS-JONES;

Cyhoeddiadau Barddas, £12.95

ADOLYGIAD — SIÂN MERERID

Dyma gyfrol o bwys gwirioneddol yn y Gymru fodern. Mae *Curiadau*, y flodeugerdd gyntaf o lenyddiaeth LHDTC+ yn y Gymraeg, a olygwyd gan Gareth Evans-Jones, yn wledd o amrywiaeth ac yn sicr, mae yma rywbeth i bawb. Dyma gyfrol sy'n dwyn dagrau ac yn agoriad llygad.

Rhaid sôn yn gyntaf am y gwaith celf, dylunio a chysodi bendigedig gan Gruffydd Siôn Ywain. Mae'r lliwiau a'r delweddau'n drawiadol, yn llawn egni a chyffro — addas iawn ar gyfer cyfrol gyfoes fel hon.

Ceir darnau rhyddiaith hynod deimladwy yn y flodeugerdd ac mae sawl thema gyffredin yn cael eu trafod megis unigrwydd, hunaniaeth, dod allan, a hunandelwedd. Un cryfder, yn fy marn i, yw'r sôn am ystod eang o brofiadau gan lenorion o bob oed. Dengys 'Atgof' Mihangel Morgan agwedd cymdeithas tuag at unrhyw un nad oedd yn heterorywiol yn y 60au a'r 80au. Dywed fod 'yna ryw ddallineb drwy gydsyniad cyffredinol' bryd hynny at fodolaeth diddanwyr hoyw ar y teledu. Yna ceir y frawddeg ingol 'Dim rhyfedd fel y gallai llanc yn ei ardegau yn y Cymoedd ddod i greu taw ef oedd yr unig un yn y byd.' Mae'r unigrwydd hwn yn gyson drwy'r gyfrol yn ogystal â chyfeiriadau at hunaniaeth a theimlo 'fel fi'. Dyma bwysigrwydd y casgliad. O'r diwedd, mae yma lyfr swmpus yn cynrychioli'r



Cymry LHDTC+, sydd yn llwyfan i'w lleisiau ac yn gysur i lawer, rwy'n sicr. Darnau eraill sydd wedi fy nghyffwrdd i yw 'Gyda Gwên' gan Cris Dafis, 'Cacan Ffenast' gan Marged Wiliam a 'Fel Adenydd' gan Megan Hunter. Ceir hefyd ambell gyfeiriad at anallu ein hiaith i ddisgrifio profiadau'r oes hon o ran perthynas a rhywioldeb. Mae'r ddeialog ysgafn 'Llwyth' gan Daf James yn tynnu sylw at y termau hen-ffasiwn fel 'gwrygydiwr'. Dyma ddechrau sgwrs bwysig, yn wir!

Mae'r farddoniaeth yn y gyfrol eto'n cynnig

amrywiaeth o themâu a mesurau ac mae ambell gerdd yn ddirdynnol. Mae detholiad o 'Olion' gan Gwynfor Dafydd a gipiodd y gadair yn Eisteddfod yr Urdd yn 2016, yn un o'r rheiny i mi. Llanc sy'n hel meddyliu am ddod allan sydd yma, sy'n cofio pa mor anodd oedd y cam hwnnw iddo. Mae 'Ail-fyw' gan Iwan Kellett yn un arall sy'n haeddu sylw. Mae'n

sôn am y penderfyniad anodd o fod yn driw i'w hunaniaeth, ac am wych yw'r rhyddhad yn y pennill olaf.

Prin yw'r cerddi caeth yn y gyfrol, a hoffwn weld mwy yn defnyddio'r gynghanedd i drafod y themâu pwysig, gan ei bod yn grymuso negeseuon cerddi. Edrychaf ymlaen at weld rhai o'r beirdd yn aeddfedu ac yn datblygu cynildeb yn y cyfrolau nesaf.

Gwaith anodd yw ysgrifennu adolygiad byr o gyfrol mor amrywiol ac mor bwysig. Gresyn nad oes lle i drafod mwy o'r gwaith! Anrheg Nadolig gwerth chweil!

Gweld Llun o Glywed Llinell

RHYS DAFIS;

Cyhoeddiadau Barddas, £8.95

ADOLYGIAD — NON LEWIS


Casgliad o waith oes yw'r gyfrol hon gan Rhys Dafis. Mae'n ein tywys o le i le, o atgof i atgof, a'r llinyn sy'n tynnu'r cyfan at ei gilydd yw profiadau'r bardd ei hun. Dw i wastad yn gweld darllen cyfrol o gerddi yn ddihangfa, ac mae casgliad Rhys Dafis yn tanio ein dychymyg.

Cryfder y gyfrol yw ei bod hi'n mynd â ni i lefydd cyfarwydd. Drwy swyn y Gymraeg a chlec y gynghanedd, mae'r bardd y ein harwain ar hyd llwybrau cyfarwydd ein harfordiroedd, ac yna mynd â ni i'w gartref ble cawn gipolwg ar atgofion bore oes. Rydyn ni'n cael ein herio â themâu gwleidyddol a threisgar, sy'n ein gorfodi i edrych eto ar y ddynoliaeth. Mae'r cerddi yn drwch o ddelweddu miniog sy'n aros yn y cof, ac yn ein annog i ail ddarllen a myfyrio.

Awn ar daith gydag ef ar lwybrau Cymru. Cawn gip ar Garreg Bica 'heb ildio dim' ac yna i Landdwyn, ble mae clyfrwch y geiriau yn ein hatgoffa o gariadon sy'n gwrthod gollwng gafael:

Yn caru'n dynn er cyn co,
Yn dal heb ollwng dwylo...

Tinc go wahanol sydd i'r gerdd 'Rose Tudor'. Fel pob carwriaeth werth chweil, mae'n cychwyn yn dda 'yn anwes cynnes ein cwrdd', ond o dipyn i beth mae'r hen Rose yn dangos fod ganddi 'bigau cas'. Pŵer y gerdd hon, fel



llawer o'r cerddi yn y gyfrol, ydy bod y canu am brofiadau bob dydd, ac maen nhw'n agos atoch chi.

Try'r daith at gasgliad gerddi gwladgarol sy'n pigo ein cydwybod am dynged yr iaith a'n hunaniaeth. Gwelwn erchyllterau rhyfeloedd ein byd modern wrth iddo fynd â ni drwy lygad cyn beilot i faes y gad yn y gerdd 'Maddeuant':

a dwed, cyn dy ffrwydo di
Yn ddim, it faddau imi.

Mae ei gasgliad personol o englynion a cherddi yn llawn emosiwn ac yn gignoeth. Mae sawl un o'r cerddi yn tanio'r dychymyg a'r gydwbybod. Un oedd wedi fy llorio oedd 'Gwledd'. Mae'n amlwg mai llais y bardd ifanc, diamynedd sydd yma, a dim ond wrth dyfu'n hŷn ac edrych yn ôl mae'n gweld 'fod wrth y bwrdd ymwelydd na wnes i mo'i weld'. Drwy olrhain hanes y 'cinio'n oeri...' daw crefft y bardd yn amlwg, wrth iddo droi senario bob dydd, ddi-nod yn atgof llawn hiraeth a loes.

Un peth sy'n sicr, bydd tudalennau'r gyfrol hon yn eich tynnu yn ôl ati dro ar ôl tro. Digrifwch, dagrau a direidi. Bydd y gyfrol hon yn ennill ei lle yn eich casgliad. Mae hi'n gyfoes, yn ysgytwol ac yn aros yn y cof. Mae fy athro cynghanedd yn dweud o hyd mai llunio chwip o linell glo yw nod unrhyw fardd gwerth ei halen, ac mae gan y gyfrol hon sacheidiau ohonynt!

Er bod y bardd yn cloi ei gasgliad gan ddweud mai bardd 'difision tw ydw i', rhaid anghytuno. Does dim byd 'giami' am y rhigymwr hwn!

I Dynnu ar yr Edau

Cyfansoddiadau buddugol

Eisteddfod yr Urdd 2022 a 2023

**GOL. TWM EBBSWORTH, CIARÁN EYNON
A TEGWEN BRUCE-DEANS; DARLUNIAU
GAN LLEUCU ELISA;**


Cyhoeddiadau Urdd Gobaith Cymru, £9.99

ADOLYGIAD — SIONED ERIN HUGHES

Es at y darnau hyn heb ddim mwy nac adlais ambell i feirniadaeth yn fy mhen a chysgod atgof o'r cystadlaethau awyr agored oedd â'u cynulleidfaoedd yn gorweddian ar fêls gwellt. Gellid dadlau bod y ddwy flynedd hyn o gystadlu wedi bod yn rhai anffodus o agos at gyfnod y Clo Mawr a'r Cofid ac, o'r herwydd, roedd ofn gwirioneddol i'r cystadlaethau gael eu colli yng nghanol bwrlwm y 'cael yn ôl' — cael yn ôl y bywyd a'r rhyddid digymar hwnnw a aeth mor ddiethr inni.

Gresyn gen i gyfaddef, felly, bod fy nghof o gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd 2022 yn enwedig, braidd yn annelwig. Mae bai arnaf am hyn, oherwydd o ddarllen y darnau rŵan gyda threm ychydig cliriach, rhywbeth sy'n amlwg yn y lleisiau i gyd yw'r her, a'r angen dynol hwnnw i gael eu clywed ar ôl cyfnod heb ei debyg. A chan ei bod hi'n amhosib imi drafod bob cystadleuaeth yn unigol, gadewch imi osod ymbarél uwchben y cwbl gyda'r geiriau hyn arni — mae pob llais, *pob un*, yn argyhoeddi. Maen nhw'n lleisiau o bwys, sydd heb ofn ymrafael â'r dyfnderoedd sydd i'r byd, i'r meddwl, ac i'r profiad amheuthun o fyw yn yr oes sydd ohoni.

Gan osod y chwyddwydr ar ddarnau 2022 i ddechrau, yn ddisgwyliedig, roedd sawl darn yn ymddrin â'r Cyfnod Clo a'i effaith ar iechyd



meddwl yr ifainc. Er bod hyn wedi'i drafod drwodd a thro dros y blynyddoedd diwethaf, doedd dim un o'r darnau'n dreuliedig. Roedd gan bob un ogwydd empathig ar y sefyllfa, ac rydw i'n un sydd o blaid siarad yn ddi-baid am iechyd meddwl, beth bynnag. Felly roedd darllen y darnau, er y pangfeydd, wrth fodd fy nghalon i hefyd.

Yn naturiol, roedd eraill am y gorau i wyro oddi wrth y cyfnod a chanolbwyntio ar bethau eraill, sydd hefyd yn ddealladwy. Ymhlith y themâu sy'n serio'r cof, ceir darn am unigolyn cwïar sy'n parhau i ddisgwyl i'r Gymraeg allu geirio ei deimladau ac sydd eto i weld Cymru yn ymestyn tu hwnt i'r 'deuaidd' a rhoi iddo'r hyder i 'agor y ddôr at y stôr sy' dan stâr'. Cawn ddarn angerddol am Frad y Llyfrau Gleision, sydd ddim yn swil o ddychan clyfar! A cheir darnau cenedlaetholgar eraill hefyd sy'n chwythu anadl newydd i

hen hanes, gyda darnau am Gapel Celyn, Aberfan, hen chwedlau gwerin, a chymaint mwy. A braf hefyd ydi gweld cymaint o gerddi sydd fel llythyron caru i fyd natur, rhywbeth a oedd yn gynhaliath i'r mwyafrif llethol ohonom dros y Clo Mawr, yn reit siŵr.

O edrych wedyn ar ddarnau 2023, rhywbeth a'm trawodd i oedd yr ysgrifennu hardd am y manylion bychain, ymddangosiadol ddibwys, oedd yn fanylion o bwys mawr mewn gwirionedd. 'Y Pethau Bach, Mawr' fel y byddwn i'n licio dweud. Does gen i ddim digon o ofod i'w rhestru i gyd, ond dyna fwy o reswm i chi brynu a bwrw ati efo'r darllen! Rhywbeth arall sy'n ei amlygu ei hun wrth i'r darllen fynd rhagddo yw'r cydbwysedd braf rhwng y llon a'r lleddf. Lle mae trafod am garu diamod, am werth parhad a thraddodiad, mae yna drafod difrifol am gollu cof, am argyfwng ail gartrefi ac am

drais rhywiol, hefyd. Mae yna le i'r cwbl ac mae gosod y dwys a'r ysgafn am yn ail yn hwyluso profiad y darllenydd.

Gyda'r ychydig ofod sydd gen i'n weddill, gaf i ddweud mor bleidiol ydw i dros argraffiad o'r fath, gan fod darllen y darnau hyn rŵan wedi rhoi'r ysgytwad angenrheidiol imi gofio am y lleisiau y gorfu iddynt gwffio yn erbyn anferthedd Cofid, a diolch filoedd i'r Urdd am rhoi pob chwarae teg iddynt yn dilyn cyfnod digynsail. Mi fydd geiriau'r golygyddion, Ciarán, Twm a Tegwen, yn aros efo fi, gan fy mod innau'n rhannu'r un gobeithion â nhw am ddyfodol o sgwenwyr ifainc egnïol a brwd. Ciarán sydd yn ei dweud hi orau:

Mi dynnwn ar yr edau.

Mi lynwn at y geiriau.

Ac mi ddaliwn i greu.



Yer Ower Voices!

GOL. MIKE JENKINS;

Culture Matters, £12

ADOLYGIAD 1 — MATHEW CLUBB

*Nawr, lle mae'r hen Wenhwysiadur, tybed? A!
Dyma fe. Ei blygio fe mewn ... rhodddwn ni fe ar
5, ie?*


Wel, jawch ariod, oty, mae fa'n gwitho'n ddæ diginnyg, on oty wnna'n ormodd? Mae isha i wrnewash yn nyall ryw gietyr – mae bacid o ddyrllinwrs y *Barddas* yn amwbodus i thus, elan nw'n ipish, w...

Lawr i 3 efallai...

Nawr'ta, er nag wi'n darllan rhyw lawar o farddoniath, fe wnath clowr y gyfrol hon citsho yn fy niddordab yn syth: '*Dialect poems in Welsh and English from Cymru*'. Swnio'n ddfyfr!

Dyma'r gyfrol gynta o'i bath, yn cynnwys gwaith 28 bardd o betar 'ardal': o ddinas Abertawa, i'r Cymo'dd, ac wetyn draw i Gaedydd — gytag un llaish byrlymus o Gasnewydd — ac yn ola, y Gogledd a'r Gorllewin. Sysnag yw iaith y rhan fwy ohonynt, ne yn hytrach 'Saesnegau' o bob shwd, er bod y Gymrag yn ddylanwad amlwg ar lawar o'r Saesnegau hynny. Ac un o agwedda mwya difyr y gyfrol yw'r pwt bach o 'unangofiant neu fanifesto y ma'r beirdd yn ei roi cyn eu cerddi. Rhynt yr ysgrifau hyn a'r cerddi eu hun, fe ddyla fod rhwpath yma i gwnnu gwên, ne aelia, ne wrychyn, i bawb sy'n ymddiddori mwn iaith a seinia, ac yn niwylliant Cymru yn ei oll liwia a'i ogoniant. Ac i gwnnu archwath am fwy.

Un o amcanion y gyfrol yw dangos nace rhwpath isgafn, comig, yn unig yw'r farddoniath hon. Ma'n ymdrech i roi llaish i brofiata popul



go iawn 'i wahodd y darllenydd... i fydoedd anghyfarwydd,' ys gwed Jemma June Howell, '— bydoedd sydd yn aml yn cael eu camliwio, eu difrio neu eu pardduo'. Ac ma llawar thema ddwys yma: trais ar yr ilwyd, henaint, tloti, unigolyn yn brwydro anawstera o bob math. Ond ma dicon o amrywiath yn y themâu efyd, o Farchnad Caerdydd, i wnio, o brydferthwch Llydaw, i sôn am ailddyfodiad Warren Gatland. Ac ma cryn dicyn o hiwmor; fe geso i fy nifyrru a'n syfrdanu gan ddyfeisgarwch ac amrywiath y gwaith. Ac weti'r oll drafod dwys am iaith, fi dorras i mas i werthin o ddarllin ysgrif Phil Knight am ei awydd i farddoni yn iaith y Daleciaid.

Ro'dd gynnof i sawl cwestiwn wrth acor y

gyfrol, ac amball i ameuath. Yn wir, meddylias fod fy ofna yn mynd i gial eu gwireddu wrth welad llinall gynta 'Port Talbot' gan Stephen Knight:

ArizeeM4 runinonnyEdger-town.

[Aaaa! Be iffar?] Ond o dicyn i beth fe geso i fy swyno gan y gerdd, yn mwynau'r gêm a chlwad y farddoniath:

ArizeeM4 runinonnyEdger-town.

Kahzgo-zbuy awlerTHyme brissplay scissor-sairntunce
withOwtennyverrb — sunobsuleetown!

[Dyna'r M4 yn rhedeg ar gyrion y dref. / Aiff ceir heibio drwy'r amser ond brawddeg yw'r lle hwn / heb yr un ferf — y mae'n dre a ddaeth i ddiwedd ei hoes!]

Prysuraf gwed bod dicon o gerddi nag o's angan sgiliau Parc Bletshli er mwyn eu deall. Rhan o ogoniant y gyfrol hon yw'r orgraff sy'n amrywyo o fardd i fardd ac o gerdd i gerdd.

Ma cryn dicyn o'r cerddi hyn yn rhyw gerddi ymson, yn manteishio acha lliw a di-flewyn-ardafodiath yr iaith lafar i roi llaish i gymeriata. Dyw hwnna ddim yn synnu rhywun falla, ond ar eu gora, ma'r ymsonau yn gallu cynnig mwy na rhyw arath ne brecath, ma David Hughes yn llwyddo i droi ymson yn stori sy'n cyffwrdd calon, sy'n plethu hanes bywyd a hanes dinas yn 'Jess like ewan me'.

Cwestiwn o'dd gynto i ar y cychwyn, o'dd a fydda'r cerddi yn sefyll eu darllin fwy nag unwaith. Y gwir yw y bydda i'n dychwelyd at rai o'r darnau, ond ddim pob un. Ma rhai'n amlwg weti'u llunio at bryfformiad — i gyrradd clust y gwrandawyr dros ei beint, mecis. Annhepyg y bydda i'n mynd yn ôl yn amal at e.e. 'A Child's Christmas in Cardiff' gan Tôpher Mills, er ei bod yn ddicon difyr, ond ma sawl un o'i gerddi

ef weti gwir fachu yndo i, fel tywyllwch wara'us rhyfeddol 'Reemaaarraabul (uh Kaairdiff lullaabi)' neu 'The Last Drunk in the Pub:

aaave yews eva kurst yuhself
hert flowin liek aassid rayun
felt trew lownleenus swolo yew up
mayd uh room emptee biee yuh presuns

[a wnaethoch erioed eich mellithio'ch hun / poen yn llifo fel glaw asid / teimlo gwir unigedd yn eich llarpio'n gyfan / gwacáu ystafell â'ch presenoldeb]

I'r dyrlenydd Cwmrag falla y bydd y cerddi Cwmrag yn siomi. Dw i ddim yn gwed eu bod nw'n shimpil o gwpwl; ma gwaith difyr a gwerth eu dyrlan, ond do's dim cerdd Gwmrag y tu mas i'r 'Gogledd a'r Gollewin'. Ma'n nw bron i gyd yn wilia am iaith, gyta thicyr o duedd tuag at gonach am y cam ma Cwmrag llafar weti'i gial. Peth dicon teg, efalla, ond a meddwl bod hyn yn gyfla i ddangos donia'r Gwmrag i gynulleidfa newydd, ma i'n drueni taw dyna yw'r argraff a adawir.

I mi, gwych yw clwad 'en seinia a geiria fy mepyd, 'chopsin', 'muggins by yuh', 'I do do sewin I do' ond yr un mor 'yfryd yw'r petha angyfarwdd fel Sysnag Shir Benfro Jacqueline Jones (prin yn dyall gair!) a Chreól Guiana Maggie Harris: '*Where yuh navel string bury is not necessarily home*'. Os ych chi'n wilo am rwpath cyfarwdd ac anghyfarwdd, y dwys a'r difyr, am 'elp i ymarfer eich 'Keirdiff', am olwg newydd ar ein gwlad yn hunan, dyma rwpath i'ch rhestar Nadolig!

Bwriad y gyfrol, yn ôl cyflwyniad y golygydd Mike Jenkins, yw ceisio unioni'r canfyddiad mai cyfrwng ar gyfer barddoniaeth ysgafn a digrif yn unig yw barddoniaeth dafodieithol. Yn y flodeugerdd hon, cerddi wedi'u hysgrifennu yn nhafodieithoedd gwahanol De Cymru a geir yma'n bennaf; gan gynnwys Abertawe, y Cymoedd a Chaerdydd, ond fe geir cyfraniadau mewn tafodieithoedd Gogleddol hefyd. Am nad oes un ffordd benodol o sillafu'r tafodieithoedd hyn, bu'n rhaid i'r cyfranwyr fynd ati i greu eu horgraffau eu hunain.

Ar yr olwg gyntaf, mae ieithwedd rhai o'r cerddi Saesneg yn ymddangos yn astrus iawn, ond fel y dywed David Hughes yn ei ragymadrodd i'w gerddi ef, 'Many readers struggle with the unorthodox spelling used. One of the rewards however is when people do connect with this 'different' language.' Mae hyn yn sicr yn wir. Dyma ddyfyniad o 'The Heart of Saturday Night' yn nhafodiaith Abertawe gan Stephen Knight: 'Ease werkinnerWallsuz awlnite wunny, / issgeezerKev eyesoreAir. Ease reel ye'owld.' Yn yr un modd, gwelir yr orgraff yn ei gerdd 'Port Talbot': 'Signs in Well shunning Lish, Sundaze go-nonfer munce.'

Yng nghanu Gemma June Howell, fel sawl un arall, rhoddir llais i'r unigolion sy'n aml yn destun stigma neu feirniadaeth, gyda 'Benefit Fraud', 'Jobseeker's Disagreement' a 'Head Hunted' yn ganu gonest a real sy'n tynnu sylw at densiynau'r dosbarthiadau gweithiol. Yn yr un modd, mae Barry Taylor yn rhoi sylwebaeth ar gymdeithas, wrth drafod ei dad yn gweithio yn y pyllau glo, a dylanwad Thatcher ar y cymunedau glofaol hyn: 'A big black ole / Where 'e ammer fell / An 'e art o the c'munity / Disappeared in 'e dark.' Mae'r golygydd hefyd â cherdd sy'n edrych ar ddiwywiad cymdeithas. Yn 'Oo Stole Ower Town?' fe ddywed: 'Somebuddy stole ower town centre / coz the shops keep disappearin / an theyer emptee as Tory brains...'

Ceir cerddi sy'n eu cynnig eu hunain yn berffaith i'w perfformio a'u darllen ar goedd, ac

mae'r ddeialog chwim yn 'Cuppa in CA CLUD' yn enghraifft wych o hynny: 'Kieran make one full breakfast will u? / cuppa? / ta. / thank you please / whats on ur knees / mud mun, / chelsea bun? / no ta / custard cream?'

Er mai Saesneg yw mwyafrif y cerddi yn y gyfrol, mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r defnydd o Wenglish yn edefyn amlwg drwyddi draw, ac fe'i hymgorfforir yn ffraeth gan Gwenno Gwilym yn 'Paid â siarad Lobsogws': 'Chwysu'r treigladau caled i neud nw'n soft / Gadael iddo ffrwtian drwy gydol dy ardegau / mutatio, adaptio, anghofio'. Mae 'Over the Llestri' gan Aled Lewis Evans yn sicr yn uchafbwynt, lle mae Wenglish disgyblion ysgol yn Wrecsam yn esgor ar ddweud bachog, ond sydd eto'n realistig: '...I've even watched "Traed mewn Cyffion" / I'd be dead good at Cymraeg / if the treigladau weren't there.'

Ceir cyfieithiadau o'r cerddi Cymraeg, ac un cyfieithiad i'r Gymraeg gan Menna Elfyn o gerdd Maggie Harris 'Cwmpencraig, Place of Stones'. Cynhwysodd lfor ap Glyn eirfa ac eglurhad o'r nodweddion a'r llefydd yn ei gerddi ef am Gaernarfon, sy'n ddefnyddiol iawn; byddai hyn wedi bod yn fuddiol gyda sawl cerdd arall yn y gyfrol, er mwyn rhoi cyd-destun i ddarlennwyr sy'n anghyfarwydd â'r ardaloedd a'r ieithwedd dan sylw.

Dyma flodeugerdd unigryw ac arloesol, sy'n sicr wedi fy argyhoeddi ei fod yn *genre* i'w gymryd o ddifrif. Drwy'r hiwmor tywyll sy'n aml yn gefnlen i'r canu, llwydda i gynnig sylwebaeth gymdeithasol ar yr hyn a ystyrir yn Gymraeg a Chymreig drwy themâu sy'n edrych ar galedi bywyd, fel cam-drin domestig, cyffuriau, ffoaduriaid a diweithdra, ond hefyd drwy grybwyll pynciau mor amrywiol â'r dafodiaith ei hun, pêl-droed, marchnad Caerdydd, Kylie Minogue a rygbi. Cefais gyfle i ymhyfrydu mewn tafodieithoedd di-rif, clywed hanesion o'r newydd a dysgu am ddiwylliannau a oedd yn anghyfarwydd imi, ac rwy'n mawr obeithio y bydd yn sbardun am ragor o gyfrolau yn dathlu tafodieithoedd niferus ein cenedl.



Y GOLAU

Dirgelwch ydi'r Golau; — daw allan

O dywyllwch weithiau,
Yn wên, a'r hunlle'n parhau,
Yn obaith ar wynebau.

SIONI MÂR

Chwilio am y calennig perffaith?



Tanysgrifiwch i *BARDDAS*!

4 cylchgrawn y flwyddyn - £25

Cysylltwch â Heledd Melangell
– heledd@barddas.cymru

Pencerdd



barddas

Mae **Llenyddiaeth Cymru** yn cynnig cyfle i bum bardd ddatblygu eu sgiliau fel cynganeddwyr trwy ein rhaglen newydd sbon, **Pencerdd**, a gynigir mewn partneriaeth gyda **Chymdeithas Barddas**.

Nod y cynllun hwn yw rhoi hwb i Benceirddiaid y dyfodol. Trwy gefnogaeth unigol a gweithdai, y gobaith yw y bydd y beirdd yn magu mwy o hyder, ac yn meithrin eu llais personol eu hunain o fewn iaith Cerdd Dafod. Bydd ein beirdd yn mynd ymlaen wedyn i eiriol dros y grefft arbennig hon, gan blannu hadau cynganedd ymysg grwpiau a chymdeithasau eraill. A gobeithiwn

y bydd y cynllun yn fodd i hyrwyddo lleisiau a safbwyntiau newydd yng nghreffft y gynghanedd yng Nghymru.

Mae'r rhaglen yn para am flwyddyn rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2025, ac mae'n rhad ac am ddim.

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais:
1:00pm, Dydd Mercher, 3 Ionawr, 2024.

Ewch i: llynyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/pencerdd

*Y traddodiad hardd ydyw,
A'r hen ddweud o'r newydd yw!*